**ARCHWILIAD**

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD (2018-2033)**

**PEN-Y-BONT AR OGWR**

---

**RHESTR O FATERION A CHWESTIYNAU**

**M10 (1) Datganiad Sesiwn Gwrandawiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

**Mater 10: Dylunio Da a Chreu Lleoedd Cynaliadwy – Dyraniad Strategol ar Dir i'r Gorllewin i Ben-y-bont ar Ogwr (PLA3 a SP2(3))**

*Mater – A yw'r Safle Datblygu Strategol dyranedig wedi'i seilio'n gadarn ac yn gallu cyflawni datblygiad preswyl a chymunedol newydd dros gyfnod y Cynllun?*

**a) Beth yw defnydd presennol y Safle Datblygu Strategol (SDS)?**

Mae'r safle'n cwmpasu tua 37 hectar ac yn cynnwys ffermdir pori agored gydag ardal o goetir a chaeau rhostir amgaeedig i'r gogledd-ddwyrain. Mae'r ffermdir agored yn cynnwys caeau bach i ganolig o siâp afreolaidd o laswelltir wedi'i wella â ffiniau caeau â llystyfiant. Nid oes dim o'r safle'n Dir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (fel y cadarnheir yn SD134 – Dadansoddiad o Ddosbarthiad Tir Amaethyddol). Mae'r rhan goediog o'r safle i'r gogledd-ddwyrain yn rhan o Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC) Dolydd Trelales, sy'n ddynodiad ecolegol lleol. Mae'r safle a'i ffiniau caeau mewnol yn y ffermdir agored yn cynnwys ffensys da byw, gwrychoedd a chloddiau a gynhelir, llain goed a wal garreg.

**b) Beth yw defnydd arfaethedig y SDS?**

Mae tir i'r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl wedi'i arwain gan seilwaith gwyrdd cynhwysfawr. Bydd y safle'n darparu tua 850 o gartrefi, ac 830 o'r rhain yng nghyfnod y Cynllun (gan gynnwys 20% / 170 o unedau tai fforddiadwy), gan ymgorffori ysgol gynradd newydd ag un a hanner o ddosbarthiadau mynediad, cyfleusterau hamdden, man agored cyhoeddus, a chyfleusterau cymunedol priodol o fewn ardaloedd cymeriad ar wahân.

**c) Beth yw'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle ac a yw'r cyfyngiadau hyn yn rhwystrau sylweddol i ddatblygu o fewn cyfnod y Cynllun?**

Nodir y cyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle yn yr Atodiad Gweithredu a Chyflawni i'r CDLl newydd, ynghyd â'r Cynllun Cyflawni Seilwaith (SD77, 2022). Fodd bynnag, ni ystyrir bod yr un o'r rhain yn rhwystr sylweddol i ddatblygu yng nghyfnod y cynllun oherwydd mesurau lliniaru sydd wedi'u nodi. Mae tystiolaeth ategol y safle wedi

ystyried yr holl gyfyngiadau i ddangos bod y safle'n gyflawnadwy ac yn hyfyw. Crynhoir y prif gyfyngiadau isod er mwyn hwyluso cyfeiriad:

**Lliniaru Traffig**

Mae'r Asesiad Trafnidiaeth penodol i'r safle (SD155), sy'n ymgorffori Strategaeth Symudedd, yn darogan rhyw 269 a 243 o symudiadau dwy ffordd yn ystod oriau brig y bore a'r hwyr yn y drefn honno, er yr ystyrir mai hwn yw'r senario gwaethaf wrth i'r newid mewn agwedd at deithio ddatblygu. Mae'r nifer hwn o deithiau yn cyfateb i ychydig dros 4 cerbyd y funud y ddwy ffordd, sy'n pylu ar draws y rhwydwaith priffyrdd lleol. Daw'r asesiad i'r casgliad bod y datblygiad yn darparu cyfleoedd i greu ymyl dwyreiniol newydd i Ben-y-bont ar Ogwr mewn safle hunangynhaliol sy'n cynnig cyfleusterau cymunedol sy'n addas ar gyfer byw o ddydd i ddydd.

Ystyriodd yr Asesiad Trafnidiaeth Strategol (SD95) effaith gronnus y dyraniadau arfaethedig. Fel y crynhoir ym Mhapur Cefndir 24: Asesiad Trafnidiaeth Strategol (SD56), ceir proses liniaru briodol bosibl drwy gyfraniad adran 106 a gwaith Priffyrdd S278 i wella'r rhwydwaith priffyrdd strategol. Ar gyfer Tir i'r Gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr, bydd hyn yn cynnwys cynllun gwella cyffyrdd sylweddol ar Gylchfan Broadlands yn ogystal gwella signalau ar gyffordd yr A483 Heol y Bont-faen /B4265 Ffordd Ewenni/A473 Langenau Strasse/Stryd Nolton, cyffordd Cylchfan yr A473/A48, cyffordd yr A473 Heol Tredwr/Brocastle Avenue/A473 Heol Tredwr/B4181 Ffordd Llangrallo a chyffordd yr A473/B4622/Bright Hill. Ystyriwyd yr amcangyfrif o gostau'r camau lliniaru hyn fel rhan o'r arfarniad hyfywedd penodol i'r safle ar gyfer Tir i'r Gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr, gan sicrhau y gellir goresgyn yr holl gyfyngiadau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth er mwyn gallu dwyn y datblygiad ymlaen. Bydd y gwelliannau i Gylchfan Broadlands yn cynnwys darpariaeth teithio llesol.

**Ansawdd yr Aer**

Mae'r effeithiau ansawdd yr aer sy'n gysylltiedig  datblygiad arfaethedig y safle wedi'u hasesu fel rhan o Adroddiad Asesiad o Ansawdd yr Aer (SD135). Dangosodd yr adroddiad y bydd trigolion yn y dyfodol yn profi ansawdd aer derbyniol, gyda chrynodiadau llygredd yn is nag amcanion ansawdd yr aer. Awgrymodd modelu senario gwaethaf a gynhaliwyd ar gyfer 2022 y byddai risg o effeithiau andwyol i 6-8 o eiddo ar hyd Stryd y Parc o ganlyniad i allyriadau traffig a grëwyd gan y datblygiad. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd unrhyw gartrefi newydd yn y datblygiad yn cael eu meddiannu cyn 2024, ac mae'n annhebygol y bydd y datblygiad yn gyflawn, gan gynhyrchu ei meintiau traffig llawn tan ddiwedd oes y cynllun. O gofio hyn, ystyriodd yr Asesiad o Ansawdd yr Aer y byddai effaith wirioneddol y datblygiad ar yr 8 cartref hyn yn ddibwys ymhob blwyddyn o'r

feddiannaeth gyntaf yn 2024, ac y bydd crynodiadau yn yr eiddo hyn yn is na'r amcan yn y blynyddoedd hynny. Ar y cyfan, bernir effeithiau ansawdd aer gweithredol y datblygiad arfaethedig i fod 'dim yn sylweddol'.

Er gwaethaf casgliadau'r Asesiad o Ansawdd yr Aer, bu Stryd y Parc yn rhan o Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer ers 2019. Ymgynghorwyd ar Gynllun Gweithredu Ansawdd yr Aer yn 2022 ac mae'n cynnwys camau lliniaru blaenoriaethol amrywiol i wella ansawdd yr aer. Comisiynwyd gwaith modelu manwl ar y camau lliniaru a fyddai'n rheoli ac yn gwella llif traffig trwy Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer Stryd y Parc, ac wrth wneud hynny, cyflawni gwelliannau i ansawdd yr aer yn yr amser byrraf posibl, a lleihau lefelau i fod mor isel ag y bo'n ymarferol bosibl yn unol ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a CBS Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r rhain yn cynnwys optimeiddio Cyffordd Stryd y Parc/Stryd yr Angel/Ffordd Tondu, sy'n destun astudiaeth ar wahân bellach, ac o ystyried yr Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer sydd ar waith, bydd angen eu lliniaru cyn cyfnod y cynllun i gyrraedd targedau ansawdd yr aer.

Cydnabyddir y bydd rhywfaint o draffig cerbydau ychwanegol yn gysylltiedig â Stryd y Parc a briodolir yn uniongyrchol i'r safle. Fodd bynnag, mae'r Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer o ganlyniad i bolisi hirsefydlog o ddibyniaeth ar geir a'r dull 'rhagfynegi a darparu' anghynaladwy. Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio dylanwadu ar y newid hwn mewn ymyrraeth seilwaith ac ymddygiad teithio drwy bolisi a deddfwriaeth genedlaethol. Mae dyraniadau'r CDLl newydd wedi'u dewis yn seiliedig ar eu tuedd i ddylanwadu ar batrymau teithio llesol ac mae hyn yn cynnwys Tir i'r Gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr, sydd mewn lleoliad da i annog cerdded a beicio i ganol y dref, ardaloedd cyflogaeth a chyfnewidfeydd trafnidiaeth i deithio'n bellach. Bydd y camau lliniaru a nodir ar gyfer Cylchfan Broadlands yn cynnwys darpariaeth teithio llesol a fydd yn gwella'r rhinweddau hyn yn fwy. Felly ystyrir bod y safle'n rhan o'r ateb trwy ei leoliad ffafriol i annog pobl i beidio â defnyddio car.

**Ecoleg**

Mae'r uwch-gynllun ar gyfer y safle wedi'i lywio gan astudiaeth ben bwrdd ecolegol ac mae arolwg Cam 1 Estynedig wedi'i gynnal gan EDP (gweler SD143). Mae'r astudiaeth yn nodi bod nifer o safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol yn agos iawn i'r safle, a'r mwyaf amlwg yw SINC Dolydd Trelales sy'n gorgyffwrdd â'r safle ei hun. Fodd bynnag, mae'n gynhenid yn yr uwch-gynllun datblygol a'r gofynion ym Mholisi PLA3 y bydd SINC Dolydd Trelales a'i nodweddion dynodedig cysylltiedig yn cael eu cadw. Yn ogystal, bydd y nodweddion hyn yn cael eu gwarchod yn fwy rhag niwed, difrod a tharfu posibl drwy ddylunio datblygiad adeiledig yn sensitif i ffwrdd o ffiniau'r SINC a chynnwys clustogfeydd addas. Mae'r astudiaeth ben bwrdd yn cadarnhau y bydd cynnwys SINC Dolydd Trelales o fewn ffin Safle'r Astudiaeth yn darparu potensial sylweddol am ddarpariaeth gytbwys o ardaloedd o fan agored cyhoeddus anffurfiol a pharthau bywyd gwyllt. Trwy ei gysylltu â'r man agored

cyhoeddus ac ardaloedd chwarae ar draws y safle datblygiadwy, bydd hyn yn darparu budd sylweddol i amwynder gweledol a hamdden, cadwraeth a gwelliant bioamrywiaeth.
O ran yr olaf, mae'r SINC yn darparu lle posibl i gynnal camau lliniaru ecolegol a gwella bioamrywiaeth ac felly gwrthbwyso effeithiau ecolegol a allai godi wrth ddatblygu tir cyfagos.

Daeth arolwg Cam 1 Estynedig i'r casgliad mai glaswelltir wedi'i wella gan amaeth o ddiddordeb botanegol prin yw'r safle i raddau helaeth, felly mae ei werth ecolegol cynhenid yn isel. Y cynefinoedd o'r pwysigrwydd ecolegol mwyaf yw'r gwrychoedd brodorol sy'n ffurfio'r ffin ogleddol a'r ffiniau caeau mewnol, yn ogystal â'r cynefin coetir a'r glaswelltir corsiog sy'n gysylltiedig â SINC Dolydd Trelales. Nododd yr arolygon o ystlumod sy'n clwydo nifer o goed â photensial isel i uchel i gefnogi clwydfan ystlumod ac ystyriwyd pyllau ar y safle ar gyfer eu potensial i gefnogi'r fadfall ddŵr gribog. Mae'r uwch-gynllun wedi ymdrechu i leoli'r datblygiad ar draws y cynefinoedd hynny o werth ecolegol prin a chadw cynefinoedd ffiniol gymaint â phosib hefyd. Pan fyddant wedi'u cadw, mae'r nodweddion hynny wedi'u cynnal mewn man gwrdd anffurfiol arfaethedig a chysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy, sy'n gwella cysylltedd ar draws y Safle yn y pen draw ac yn cyfrannu at yr adnoddau seilwaith gwyrdd ehangach. Fodd bynnag, pan nad yw'n bosibl osgoi, a fydd yn arwain at golli ffiniau caeau mewnol (er mewn mannau lle nad oes llawer o rywogaethau neu sy'n segur), ystyrir bod y safle'n ddigon mawr ac eang i alluogi cynigion datblygu yn y dyfodol i osgoi'n hyblyg a/neu liniaru unrhyw gyfyngiadau ecolegol sylweddol a gwneud iawn pan fo angen. Bydd hyn yn ychwanegol at leoli'r datblygiad adeiledig yn sensitif i ffwrdd o nodweddion ffiniau a gedwir er mwyn lleihau niwed gymaint â phosibl.

Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu arolygon cynefinoedd a rhywogaethau manwl eraill a argymhellir i lywio cais cynllunio a sicrhau bod camau lliniaru arfaethedig yn briodol a chymesur. Mae'r rhain yn cynnwys arolwg pathewod a godwyd yn y sylwadau a gafwyd gan CNC.

**Archaeoleg a Threftadaeth**

O ran olion archeolegol, nodir bod gan y safle botensial cymedrig i uchel i gynnwys olion o'r cyfnod canoloesol, yn enwedig yn rhan ogleddol y safle, sy'n gyfagos i hen safle Eglwys Llangewydd. Fodd bynnag, nodir bod y tir hwn yn rhan o'r SINC felly ni fydd yn cael ei ddatblygu.

O ran Ardal Gadwraeth Trelales, ni fydd unrhyw newidiadau sylweddol i'w golwg chwaith. Cydnabyddir y bydd datblygu yn rhan ddeheuol y Safle yn dileu rhan o'r dirwedd amaethyddol o amgylch Trelales sy'n ffurfio clustogfa o Fryntirion tua'r dwyrain. Fodd bynnag, bydd tir amaethyddol yn parhau ar bob ochr o amgylch Trelales, a fydd yn cadw ei gymeriad fel anheddiad ar wahân, a bydd camau

tirweddu sy'n gysylltiedig â'r datblygiad yn lliniaru unrhyw argraff o gyduno. Asesir hyn yn effaith fân ac y bydd diddordeb arbennig yr ardal gadwraeth yn cael ei gadw.

**Capasiti Addysg**

Bydd y datblygiad yn creu lleoedd ysgol ychwanegol a gallai peri straen i ysgolion y dalgylch a allai fod yn llawn ar adeg y cais. Felly bydd y datblygiad yn diwallu'r angen am leoedd ysgol ychwanegol y bydd yn eu creu drwy ddarpariaeth ar y safle a chyfraniadau ariannol. Mae'n rhaid i'r datblygiad ddarparu 1.8 hectar o dir i gynnal ysgol gynradd gydag 1.5 dosbarth mynediad gyda chyfleusterau meithrin ar yr un safle a chlustogfa ychwanegol o 0.5ha ar gyfer ehangu yn y dyfodol. Mae'n rhaid gwneud cyfraniadau ariannol hefyd i ddarpariaeth feithrin, gynradd, uwchradd ac ôl 16 yn unol â gofyniad yr Awdurdod Addysg Lleol, wedi'i gadarnhau drwy adran 106 yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol Cyfleusterau Addysgol a Datblygu Preswyl. Nodir y gofynion hyn ym Mholisi Thematig PLA3 ac ystyriwyd cyfraniadau fel rhan o arfarniad hyfywedd annibynnol y safle i ardystio cyflawnadwyedd.

**Cyfleustodau**

Bydd buddsoddi mewn seilwaith cyfleustodau yn sicrhau y gall y safle gynnal lefel y datblygu arfaethedig. Cynhaliwyd Asesiad Cyfleustodau sy'n cadarnhau bod 3 llain o linellau pŵer trydan uwchben a bod prif gyflenwad nwy gwasgedd canolig ar y safle. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu manylion gwaith dargyfeirio posibl y gallai fod ei angen yn y fynedfa newydd i'r safle oddi ar yr A473 o ran ceblau prif gyflenwad trydan, prif bibell ddŵr a cheblau ffibr Openreach. Yn hyn o beth, mae Western Power wedi cadarnhau y gellir cyflenwi'r safle o'r is-orsaf sylfaenol bresennol i'r dwyrain o'r safle. Bydd ceblau 11kV newydd yn cael eu gosod o'r lleoliad hwn i'r safle, lle bydd yr is-orsafoedd dosbarthu safonol angenrheidiol yn cael eu lleoli'n ystyriol, yn unol â gofynion WPD i gyflenwi'r datblygiad. Mae Wales & West wedi cadarnhau bod capasiti yn eu prif gyflenwad Gwasgedd Canolig ar y safle i gyflenwi'r datblygiad. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o gapasiti hefyd i gyflenwi'r cam adeiladu cyntaf o'r rhwydwaith Gwasgedd Isel yn yr A473.

Mae Dŵr Cymru wedi dweud bod gan y gwaith trin dŵr gwastraff ddigon o gapasiti i gynnal y llifau dŵr budr a ragwelir o'r datblygiad arfaethedig, er y bydd angen modelu hydrolig ychwanegol i roi gwybod am gapasiti'r rhwydwaith cyflenwi dŵr a dŵr budr, pwyntiau cysylltu posibl ac unrhyw waith atgyfnerthu angenrheidiol. Mae'r Asesiad Modelu Hydrolig yn ofyniad datblygu safonol a bydd yn ffurfio rhan o gais cynllunio yn y dyfodol.
Mae'r gofynion hyn wedi'u hystyried yn y Cynllun Cyflawni Seilwaith (SD77, 2022). Nid yw'r Grid Cenedlaethol na Dŵr Cymru o'r farn bod unrhyw gyfyngiadau mawr ar allu'r systemau trosglwyddo trydan a nwy a'r seilwaith dŵr a charthffosiaeth i gynnal y datblygiad (cyfeirier at y Datganiadau o Dir Cyffredin perthnasol, SD100 a SD101).

**d) O gofio'r cyfyngiadau ac wrth ystyried yr angen i ddarparu tai fforddiadwy, a yw'r SDS yn hyfyw yn economaidd?**

Ydy, bu'r safle'n destun profion hyfywedd annibynnol trylwyr ar lefel manylder sy'n ystyrlon ac yn gymesur i arwyddocâd y safle yn y CDLl newydd. Comisiynodd hyrwyddwr y safle Burrows-Hutchinson Ltd i gynnal Arfarniadau Hyfywedd Ariannol Annibynnol gan ddefnyddio'r Model Hyfywedd Datblygu; dull a gymeradwywyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Rhanbarth De-ddwyrain Cymru a Rhanbarth De-orllewin Cymru.

Cynhaliwyd arfarniad cychwynnol penodol i'r safle yn 2021, a sefydlodd y gallai'r safle fodloni gofynion polisi y CDLl newydd arfaethedig yn llawn, a hefyd cyflawni adenillion cystadleuol wedi'u haddasu yn ôl risg y farchnad i'r datblygwr, a gwerth tir sy'n ddigonol i annog perchennog tir i'w werthu ar gyfer y defnydd arfaethedig. Adnewyddwyd yr arfarniad hwn yn ddiweddarach yn 2022 i ystyried newidiadau i werthoedd trosglwyddo tai fforddiadwy, gwerthoedd y farchnad a chostau adeiladu ers yr arfarniad gwreiddiol, ynghyd â manylion o'r uwch-gynlluniau cysyniadol diweddaraf ac argymhellion o'r Asesiad Trafnidiaeth Strategol (SD95). Cadarnhaodd yr arfarniad diweddaraf hwn hyfywedd y safle ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf, ynghyd â thybiaethau realistig a rhesymol ynglŷn â chostau a gwerthoedd. Cynhaliwyd y ddau arfarniad yn unol â dull a ffefrir a nodir yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru (Rhifyn 3), yn dilyn ymgynghoriad priodol ar faterion ac egwyddorion allweddol â hyrwyddwr y safle.

Mae'r arfarniadau'n dangos tystiolaeth o allu'r safle i gyflawni 20% o dai fforddiadwy yn unol â'r angen a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, ysgol gynradd gydag 1.5 o ddosbarthiadau mynediad i ddiwallu anghenion addysgol, gwelliannau strategol i'r priffyrdd mewn ymateb i'r Asesiad Trafnidiaeth Strategol a chyfleusterau hamdden yn unol â fframwaith polisi y CDLl newydd. Mae'r arfarniadau wedi dangos hefyd y gall y safle ariannu cysylltiadau teithio llesol uwch ag anheddiad ehangach Pen-y-bont ar Ogwr, gofyniad allweddol i ddarparu cysylltiadau teithio llesol diogel rhwng y safle a chanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r dystiolaeth hon yn dangos bod y safle'n hyfyw yn ariannol i'w ddatblygu ac ni ystyrir bod unrhyw rwystrau i'w gyflawni, ar ôl ystyried yn llawn y cyfyngiadau penodol i'r safle a'r angen i ddarparu tai fforddiadwy. Cyfeirier at yr Adroddiad ar Arfarniadau Hyfywedd Ariannol Annibynnol o Safleoedd Strategol Posibl (2021) a'r Atodiad Arfarniadau Hyfywedd Ariannol wedi'u Diweddaru – Safleoedd Strategol (2022).

**e) A yw nifer arfaethedig yr unedau preswyl yn realistig a chyflawnadwy dros gyfnod y Cynllun?**

Ydy, cefnogir y safle gan uwch-gynllun dangosol arfaethedig a chynllun profi safle, a lywiwyd gan lefel ddwysedd yr ystyriwyd ei bod yn ymateb yn fwyaf priodol i gyd-destun penodol y safle. Mae'r Uwch-gynllun wedi'i fireinio i allu meintioli parseli neu ardaloedd datblygu drwy ddefnyddio dwysedd sy'n creu cymeriad a hierarchaeth strydoedd glir. Mae'r hyn wedi galluogi niferoedd disgwyliedig cyffredinol y tai i gael eu cyfrifo'n gywir. Gwnaed hyn yn gyfnodol, gan ystyried defnydd tir, seilwaith gwyrdd, man agored, hierarchaeth strydoedd, llwybrau teithio llesol, cymeriad a lle, ffurf adeiladu a ffryntiadau allweddol. Bydd y datblygiad yn cynnwys ystod o anheddau amlddeiliadaeth ar ddwyseddau sy'n amrywio o 34 o anheddau i bob hectar hyd at 43 o anheddau i bob hectar, sy'n briodol i alluogi poblogaeth sy'n addas i gefnogi cymysgedd cynaliadwy o ddefnyddiau sydd wedi'u cynnwys mewn cymdogaeth. Cyfeirier at SD139(a) Lluniadau Cynllun Cysyniadol, SD150 Uwch-gynllun a SD152 Cynllun Profi Safle.

Mae nifer yr unedau preswyl arfaethedig hefyd yn gyflawnadwy a disgwylir i 830 o anheddau gael eu darparu yng nghyfnod y cynllun. Mae cyfradd y taflwybr tai wedi'i llywio gan dystiolaeth benodol i'r safle o gyflawnadwyedd, hyfywedd a dadansoddiad cyfnodau mewn ymgynghoriad â hyrwyddwr y safle a'r Grŵp Rhanddeiliaid Taflwybr Tai. Yng nghyfarfod diweddaraf y Grŵp Rhanddeiliaid Taflwybr Tai (a gynhaliwyd ar 27/05/2022), nid oedd unrhyw faterion anghytuno yn weddill o ran amseriad a chyfnodau safleoedd yng nghyfnod y cynllun. Yn yr un modd, mae holl hyrwyddwyr strategol y safle yn rhan o Ddatganiad o Dir Cyffredin (SD241, dyddiedig 20/12/2022) sy'n cadarnhau bod yr holl lofnodwyr yn cefnogi'n unfrydol y CDLl newydd ac o'r farn bod y dyraniadau strategol yn gynaliadwy, hyfyw a chyflawnadwy yn unol â'r taflwybr tai a gyflwynwyd.

**f) Sut a phryd bydd y cyfleusterau addysgol newydd arfaethedig yn cael eu darparu?**

Bydd y cyfleusterau addysg newydd yn cael eu darparu ar y safle. Bydd yn ofynnol i'r datblygwr ddarparu'r tir a chyfraniad ariannol i'r Awdurdod Addysg Lleol yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol Cyfleusterau Addysg a Chyfleusterau Datblygiad Preswyl 2021 (neu ddiweddariadau dilynol o'r canllawiau). Mae hyn wedi'i gynnwys yn yr uwch-gynllun dangosol a'r arfarniadau hyfywedd penodol i'r safle i ddangos bod y cyfleusterau newydd yn gyflawnadwy ac wedi'u hystyried fel rhan o'r dyraniad arfaethedig o'r cychwyn. Nodir y gofynion yn PLA3, sy'n angenrheidiol i ddatgan bod y datblygiad yn y dyfodol yn dderbyniol mewn egwyddor. Mae'r Cynllun Cyflawni Seilwaith (IDP, SD77, 2022) hefyd yn darparu rhestr sengl o'r holl seilwaith angenrheidiol i ddatgan bod y datblygiad yn dderbyniol mewn termau cynllunio, gan gynnwys cyfleusterau addysg. Bydd angen i'r dyraniad ddarparu seilwaith ategol priodol fel y cyfeirir ato yn y Cynllun Cyflawni Seilwaith er mwyn gallu darparu'r cwantwm o ddatblygiad arfaethedig o fewn cyfnod y cynllun.

Bydd yr amserlenni cyflawni ar gyfer y cyfleusterau addysg newydd yn cael eu nodi trwy gytundeb adran 106, a gaiff ei fonitro trwy drothwyon meddiannaeth anheddau, i sicrhau cyflawniad amserol yr ysgolion trwy drafodaeth â'r Awdurdod Addysg Lleol.

**g) Beth yw dulliau ac amserlenni cyflawni'r safle?**

Mae Polisi Thematig PLA3 yn nodi'r gofynion penodol i'r safle ar gyfer y Tir i'r Gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr, o fewn cyd-destun SP3. Bydd hyn yn galluogi ei weithredu, yn unol â'r Strategaeth Dwf a Gofodol a nodir yn SP1 a Dyraniadau Strategol a nodir yn SP2.

Mae'r Atodiad Gweithredu a Chyflawni hefyd yn nodi'r materion allweddol, cyfyngiadau, cyfnodau a mesurau lliniaru sy'n ofynnol i gyflawni'r safle, ac o'r rhain mae dangosyddion ac ysgogyddion monitro wedi'u pennu. Mae'n darparu trosolwg o faterion gweithredu a chyflawni penodol i'r safle, gan gynnwys cyfyngiadau safle, camau lliniaru angenrheidiol a mesurau gwneud iawn. Mae hyn yn hysbysu gwaith cynllunio, seilwaith a gofynion adran 106 y safle a bydd yn sicrhau eglurder i bawb ar y cam cais cynllunio. Bydd cytundeb adran 106 yn cael ei ddefnyddio i amlinellu ysgogyddion a throthwyon penodol i gyflawni'r holl rwymedigaethau cynllunio ar y safle.

Mae cyflawni'r safle wedi bod yn destun dadansoddiad cyfnodau penodol i'r safle (ar y cyd â hyrwyddwr y safle a'r Grŵp Rhanddeiliaid Taflwybr Tai) i allu datblygu'r taflwybr tai. Rhagwelir y bydd y safle'n darparu 30 o unedau preswyl yn 2024/25, a 100 o unedau preswyl bob blwyddyn ar ôl hynny; cyfanswm o 830 o unedau preswyl yng nghyfnod y cynllun. Bydd meddiannaeth yr unedau hyn yn ffurfio sail i bennu ysgogyddion adran 106 priodol i gyflawni'r rhwymedigaethau cynllunio a gofynion seilwaith, a gaiff eu monitro gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

**h) A yw dyraniad y SDS yn hanfodol i sicrhau cadernid y Cynllun?**

Ydy, mae'r Estyniad Trefol Cynaliadwy hwn yn hanfodol i gyflawni cwantwm priodol o ddatblygiad cynaliadwy o fewn Ardal Twf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n cyfrif am 10% o gyfanswm y ddarpariaeth dai ac yn arddangos rhinweddau creu lleoedd uchel o ran hygyrchedd, yr amwynderau sydd ar gael a darpariaeth gyflogaeth yng nghyd-destun y sylfaen boblogaeth bresennol a'i safle yn yr hierarchaeth aneddiadau. Bydd datblygu'r safle hwn yn cyfeirio twf tuag y Prif Anheddiad Sylfaenol sy'n arddangos angen uchel am dai fel y nodir yn yr asesiad o'r farchnad dai leol a bydd yn galluogi ystod o seilwaith ategol arall i gael ei gyflawni, gan gynnwys ysgol gynradd newydd, cyfleusterau hamdden, priffyrdd a gwelliannau teithio llesol, gan gynnwys gwelliannau strategol i Gylchfan Broadlands. Cefnogir y safle gan dystiolaeth helaeth o hyfywedd a chyflawnadwyedd ac yn cyflwyno cyfle allweddol am ddatblygiad newydd

cynaliadwy dros gyfnod y cynllun er mwyn helpu i wireddu Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl a sicrhau gweithrediad y Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy.